Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gynradd Llangoed
Llangoed
Biwmares
LL58 8SA

13/03/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Chwefror 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Llangoed yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau o argymhellion o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm ar y cyfle i arsylwi ar addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, craffu ar ddogfennaeth ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Mireinio prosesau hunanwerthuso er mwyn sicrhau gwelliannau yn y dysgu ac addysgu

- Mae'r pennaeth wedi datblygu prosesau hunanwerthuso priodol sy'n cynnwys ystod o weithgareddau sy'n cynnwys craffu ar waith disgyblion, dadansoddi data a chynnal arsylwadau addysgu a dysgu yn dymhorol.
- Mae'r gweithgareddau hunanwerthuso yn rhoi sylw ystyrlon i ansawdd y ddarpariaeth, gan gynnwys gwerthuso ansawdd cynlluniau athrawon i ddiwallu anghenion y disgyblion.
- Mae'r pennaeth yn cynnwys barn y staff yn bwrpasol wrth drafod cryfderau'r ddarpariaeth a'r hyn sydd angen sylw er mwyn gwella. Mae hyn wedi cael effaith fuddiol ar wella agweddau pwysig, gan gynnwys medrau darllen y disgyblion.
- Mae'r pennaeth yn sicrhau bod gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth briodol o ansawdd y ddarpariaeth a gynigir i ddisgyblion.
- Mae arweinwyr yn cydnabod yr angen i fireinio'r prosesau hunanwerthuso ymhellach fel eu bod yn rhoi pwyslais mwy ystyriol ar werthuso ansawdd yr addysgu a'r datblygiad ym medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion.

## Darparu cyfleoedd i ddisgyblion gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu a datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol

- Mae gan y pennaeth weledigaeth gadarn ar gyfer datblygu disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol. Mae'r pennaeth a'r athrawon wedi cydweithio'n strategol i ddatblygu medrau staff ac i ddarparu adnoddau pwrpasol i gefnogi'r weledigaeth hon. Ar y cyfan, mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau disgyblion i ddysgu'n annibynnol.
- Mae athrawon bellach yn cynllunio cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion gael llais a mwy o ddewis yn eu dysgu. Mae hyn yn cynnwys disgyblion yn darparu syniadau ar sut i gyfoethogi'r cwricwlwm a rhoi dewis iddynt ar sut maent am gymhwyso'u medrau wrth iddynt gyflwyno eu gwaith ar draws y meysydd dysgu. Mae hyn wedi cynyddu ymgysylltiad ac annibyniaeth disgyblion yn eu dysgu yn briodol. Mae disgyblion y cyngor ysgol yn chwarae rhan weithredol ym mywyd yr ysgol. Maent yn cael cyfleoedd gwerthfawr i arwain ar weithgareddau diddorol sy'n cyfoethogi bywydau eu cyd-ddisgyblion.
- Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn dechrau perchnogi eu dysgu yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu ystod o fedrau rhif, mesur a llythrennedd wrth chwarae a dysgu yn yr ardaloedd dysgu ysgogol. Ar frig yr ysgol mae'r disgyblion hynaf yn magu hyder ac yn dechrau gwneud penderfyniadau am sut i gyflawni a chyflwyno eu gwaith yn gynyddol annibynnol.
- Mae aelodau'r cyngor ysgol yn chwarae rhan weithredol ym mywyd yr ysgol. Maent yn cael cyfleoedd gwerthfawr i arwain ar weithgareddau diddorol sy'n cyfoethogi profiadau a dysgu eu cyfoedion.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6602155

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol